

o'i 'moddion' oedd *baw gwyddau*, a hyd y gwelir yn awr roedd hi'n ei ddefnyddio fel sail i wneud eli neu ennaint o'r gwymon sidan, ac yn hwnnw, mae'n sicr, y llechai gwir rinwedd yr eli. Honnid fod yr ennaint o werth at wella, neu o leiaf leddfu artaith yr eryr, sef cyflwr lliudus a thra phoenus o darddiad nerfol ac yn effeithio ar y croen. Yn ôl ei chyfarwyddyd hi roedd angen i'r dioddefydd gael ei fywdo â sucen hefyd. Nid oes modd gwybod erbyn hyn pa mor effeithiol oedd ei 'meddyginiaethu', ond fe sonnir y bu gair da i'w doniau am flynyddoedd lawer mewn cylchoedd lleol.

Efallai fod y syniad o arfer tail yn y dull yma yn ymddangos yn anhyfryd ar yr olwg gyntaf, ond mewn gwirionedd roedd y 'baw' yn sylfaen llyfn, esmwyth, hygyrch ac effeithiol i'r ennaint. Ymhellach, mae gwyddau yn greaduriaid glân, glaswellt yw eu prif ymborth — felly nid ydynt yn pasio graean. Mae'n debygol na fuasai natur y driniaeth yma yn tarfu'r dioddefwyr oherwydd cedwid y manylion am union gynnwys y moddion yn gyfrinach. Ar y llaw arall, roedd ein cyndadau yn coleddu syniadau hyblyg am driniaethau meddygol sy'n ymddangos erbyn hyn yn annymunol iawn. Er enghraifft, gwelir yn yr hen lysesulyfrau argymhellion pendant a ffyddiog i'r claf, dan amgylchiadau arbennig, yfed ei droeth ei hun fel ffishig. Rhyfeddach fyth, mae yna 'gymdeithas iechyd' mewn bodolaeth yn Lloegr ar hyn o bryd sy'n parhau, neu wedi edfryd, yr hen arferiad. Soniant yn frwdfrydig am y bendithion lu sy'n deillio o'r 'driniaeth'.

Cyfyd dau gwestiwn mewn perthynas â'r dull a nodwyd o ddefnyddio'r baw gwyddau. Pa mor gyfyngedig a lleol, a pha mor hynafol ydoedd? Ni welwyd tystiolaeth yn unman fod natur a rinwedd ennaint Bryn Canaid yn adnabyddus ledled Cymru, na hyd yn oed yn Llŷn ac Eifionydd yn gyffredinol. Tawedog oedd y gwyddoniaduron safonol, a phwysicach fyth ni welwyd 'chwaith gyfeiriad o gwbl yng nghyflwr fawr glasurol Funk a Wagnalls — *Standard Dictionary of Folklore, Mythology and Legend* at werth honedig y baw. Ar y llaw arall mae ynddi doreth o wybodaeth am arwyddocâd gwyddau ym meysydd chwedloniaeth a mytholeg — a hynny ar raddfa byd-eang.

Tybiwyd y byddai rhai o'r hen lysesulyfrau, efallai, yn ddadlennol, oblegid ynddynt hwy y diogelwyd pob math o wybodaeth feddyginiaethol gynnar — ac annisgwyl yn aml. Edrychwyd, ymhlith eraill, ar gyfrol John Gerard — *Herball: Historie of Plants* (1597), a gwaith

Nicholas Culpeper — *Complete Herbal* (1653). Mae'n anodd meddwl am ddau lyfr mor hirhoedlog oherwydd parheir i'w hadargraffu hyd y dydd heddiw! Nid oedd gair o sôn gan na Culpeper na Gerard am yr ennaint. Cwbl dawedog hefyd oedd *Lysesulyfr William Salesbury* a baratowyd, fe ddywedir, rhwng 1568 a 1574, ac a argraffwyd ym 1916 dan olygyddiaeth E. Stanton Roberts.

Yn ddiamau mae toreth o hen wybodaeth feddyginiaethol, yn yr ystyr mwyaf elfennol, wedi dod yn rhan o draddodiad y Gymru wledig ac wedi treiddio'n ddistaw i'w llên gwerin, ymhell cyn dyfodiad y meddygon graddedig a'r apothocariaid trwyddedig. Mae'n hawdd dychmygu yr 'hen wraig ddoeth' a'r 'dyn hysbys' yn graddol ddatguddio eu cyfrinachau a throsglwyddo eu doniau i'w disgynyddion dewisol, boed y rhain yn trigo'n lleol neu ar chwâl. Yn y pen draw roedd pob dirgelwch o'r fath yn debyg o ddod yn wybyddus. Mae ambell enghraifft ar gael o feddyg yn talu i berchen y fath gyfrinach am ei datguddio!

A thra'n sôn am chwalfa anochel cyfrinachau iachaol y tu hwnt i'r teulu a'r fro, priodol yw cofio — mewn cyfnod diweddarach o gryn dipyn — nad yn Llanfair-yn-Nghornwy yn unig y trigai pob aelod o dylwyth enwog 'meddygon esgryn' Môn. Aeth nifer o aelodau o'r teulu hwn i ymarfer eu talentau cynhenid mewn cylchoedd gwasgarog, megis Pwllheli a Lerpwl. Mewn gwirionedd daeth eu deheurwydd cynhenid yn y man yn anrheg amhrisiadwy i feddygaeth ffurfiol. Priodol yw addef nad oedd yn y gorffennol brinder enghreifftiau o driniaethau gwerinol — ac empirig — yn graddol ennill cydnabyddiad swyddogol.

* * * *

Derbyniwyd yr her i 'ystyried y gwyddau'. Yn anochel ymdroellodd y stori gymhlyg i lawer cyfeiriad. Anwybyddwyd y storïau am wyddau yn dodwy wyau aur oherwydd nad oes prawf y gwelwyd y fath haelioni yng Nghymru! Erys o hyd gryn ddirgelwch am gyfraniad meddyginiaethol, unigryw fe ymddengys, gwyddau Pen Llŷn. Ni chafwyd sicrwydd am na tharddell y driniaeth na'i hoedl, nac ychwaith pa mor hysbys a gwasgaredig ydoedd. Fodd bynnag, roedd ei bodolaeth o bwys. Ymhellach, mae awgrym cryf ar gael erbyn hyn nad dyma'r unig gyfraniad therapiwtig yn union o'r un ffynhonnell. Ar hyn o bryd stori arall yw honno, ond bwriedir ei chofnodi'n llawn yn y man.

(Mae trafodaeth lawn am weithgareddau 'Hen Feddyges Bryn Canaid' i'w gweld yng nghyflwr yr awdur — *Lloffa yn Llŷn: Trem yn Ôl* (Gwasg Gee), Rhagfyr 1994.)

DAU LUN

YN nechrau Mai 1994 trefnais benwythnos ym Modern i bymtheg o ddisgynyddion hen deulu Methodistiaid Mynydd-y-gof, plwyf Bodedern. Ymunais â hwy i wledda, i chwedleua ac i dramwyo amryw o lwybrau'r fro. Lletyem ym Mhlasty Prysaeiddfed.

Cefais wefr pan ddaeth un o'r cwmni ataf a dweud bod ganddo, ar ei aelwyd ym mherfeddion Lloegr, baentiadau olew o Dr David Roberts (1788-1869), Sarah (1788-1879) ei wraig, a dau aelod arall o'r teulu. Yn y fan a'r lle estynnodd gopïau o'r paentiadau yn rhodd i mi a'm gwahodd i alw heibio iddo, pan

fyddai'n gyfleus, i weld y lluniau gwreiddiol. Nid wyf, er mawr gwilydd i mi, wedi manteisio ar y gwahoddiad caredig. Sut bynnag, credaf mai gwaith Hugh Hughes (1790-1863) yw'r paentiadau hyn. Rhoddir yma lluniau Dr David Roberts a'i wraig.

Diddorol sylwi bod y llun du a gwyn o Sarah Roberts a geir ar ddechrau'r gyfrol *Mynyddygof* (1905) yn cyfateb yn union i'r paentiad olew ohoni. Nid felly'r llun du a gwyn o Dr David Roberts, sydd, er yn debyg i'r paentiad ohono, yn bortread ohono pan oedd yn hŷn.

D.W.W.

